Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Y Gyfres Gynllunio: 1 - Polisi Cynllunio Cenedlaethol

## Briff Ymchwil

Chwefror 2019



www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6317**
E-bost: **Elfyn.Henderson@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**


# Y Gyfres Gynllunio: 1 - Polisi Cynllunio Cenedlaethol

## Briff Ymcwhil

Chwefror 2019


**Awduron:**
Elfyn Henderson



**Trosolwg o'r papur:**
Canllaw cryno ar bolisi cynllunio lleol yng Nghymru yw'r papur briffio hwn. Mae'n disgrifio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y system gynllunio ac yn cyflwyno'r prif ddogfennau cynllunio cenedlaethol, gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

# Cynnwys

**Beth yw cynllunio defnydd tir? ..... 1**

**Beth yw'r gyfraith sy'n berthnasol i gynllunio yng Nghymru? . 2**

**Beth yw'r polisi cynllunio cenedlaethol? ..... 3**

Polisi Cynllunio Cymru ..... 3

Nodiadau Cyngor Technegol / Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau 4

Cylchlythyrau ..... 4

Llythyrau Egluro Polisi ..... 4

**Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. ..... 5**

**Ffynonellau allweddol ..... 6**

Llywodraeth Cymru ..... 6

Cymorth Cynllunio Cymru ..... 6

Y Porth Cynllunio ..... 6

Gwasanaeth Ymchwil y Senedd ..... 6

**Atodiad: Rhestr o Nodiadau Cyngor Technegol a Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau ..... 7**

Nodiadau Cyngor Technegol ..... 7

Nodyn Cyngor Technegol Mwynau ..... 7



# Beth yw cynllunio defnydd tir?

Mae'r system cynllunio defnydd tir yng Nghymru yn rheoleiddio'r modd y caiff tir ac adeiladau eu defnyddio a'u datblygu. Mae'n gweithredu ar ddwy lefel:

- Yn genedlaethol: drwy Lywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gynllunio Cymru; ac
- Yn lleol: drwy'r awdurdodau cynllunio lleol. Yng Nghymru, y rhain yw'r 22 o Awdurdodau Unedol a'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol.

# Beth yw'r gyfraith sy'n berthnasol i gynllunio yng Nghymru?

Mae'r prif gyfreithiau sy'n ymwneud â defnydd tir yng Nghymru wedi'u cynnwys yn y deddfau a ganlyn:

- *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*;
- *Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004*;
- *Deddf Cynllunio 2008*; a
- *Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.*

Mae'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chynllunio defnydd tir yng Nghymru yn berthnasol i Gymru a Lloegr.

Cafodd y rhan fwyaf o'r swyddogaethau gweithredol a'r pwerau i gyflwyno is-deddfwriaeth a oedd wedi'u cynnwys yn Neddfau Cymru a Lloegr i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'i ffurfiwyd ar y pryd) o dan *Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999.* Yna, o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, trosglwyddwyd y pwerau hyn i Weinidogion Cymru.

Yn dilyn y bleidlais 'ie' yn refferendwm 2011, a chychwyn rhan 4 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, enillodd y Cynulliad gymhwysedd i greu deddfwriaeth sylfaenol yn ym maes cyffredinol cynllunio defnydd tir.

*Deddf Cynllunio (Cymru) 2015* oedd y darn arwyddocaol cyntaf o ddeddfwriaeth cynllunio sylfaenol a wnaed mewn perthynas â Chymru yn unig.

O dan *Ddeddf Cymru 2017*, a ddiwygiodd *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, ymhellach, datganolwyd rhai pwerau cynllunio ychwanegol i Gymru, gan gynnwys caniatáu rhai gorsafoedd cynhyrchu trydan (gweler ein herthygl, **Cydsynio seilwaith cynhyrchu ynni).**

Mae Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Gyfraith yn **datblygu Cod Cynllunio newydd** er mwyn cydgrynhoi a symleiddio'r gyfraith gynllunio sy'n berthnasol i Gymru.



**Briff Ymcwhil:** Polisi Cynllunio Cenedlaethol

# Beth yw'r polisi cynllunio cenedlaethol?

Mae fframwaith polisi cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru yn cynnwys y canlynol:

## Polisi Cynllunio Cymru

Cyhoeddwyd Polisi Cynllunio Cymru (PPW) yn 2002 yn wreiddiol, ac mae'n esbonio polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru. Y polisïau hyn y bydd awdurdodau cynllunio lleol yn eu defnyddio i baratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Dyma brif ffynhonnell awdurdodol polisi cynllunio cenedlaethol.

Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf o **Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10),** ym mis Rhagfyr 2018. Mae strwythur y ddogfen yn wahanol iawn i'r fersiynau blaenorol, a chafodd ei diwygio i ystyried *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. Yn unol â'r cyhoeddiadau blaenorol, cafodd ei chyhoeddi fel dogfen ar-lein yn unig.

Mae'r ddogfen hon:

- Yn rhoi trosolwg o'r system gynllunio ac yn nodi'r cyd-destun ar gyfer cynllunio yng Nghymru;
- Yn amlinellu'r prif amcanion a'r prif egwyddorion polisi;
- Yn pwysleisio 'lleoedd cynaliadwy' fel nod y system gynllunio, ac yn hyrwyddo'r dull o 'greu lleoedd' i gyflawni hyn;
- Yn seiliedig ar bedair thema - Dewisiadau Strategol a Gofodol; Lleoedd Actif a Chymdeithasol; Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus; a Lleoedd Unigryw a Naturiol; a
- Yn amlinellu polisïau ar yr holl bynciau allweddol yn ymwneud â defnyddio tir gan gynnwys, tai, trafnidiaeth, datblygu masnachol, ynni, mwynau, seilwaith a gwasanaethau, datblygu economaidd, cyfathrebu electronig, twristiaeth, bioamrywiaeth, lleihau a rheoli risgiau amgylcheddol, materion arfordirol, yr amgylchedd hanesyddol, a hamdden.

Mae'r dogfennau a ganlyn yn ategu Polisi Cenedlaethol Cymru:

- Nodiadau Cyngor Technegol
- Cylchlythyrau; a
- Llythyrau Egluro Polisi.

## Nodiadau Cyngor Technegol / Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau

**Mae Nodiadau Cyngor Technegol** yn cynnwys canllawiau manwl mewn meysydd penodol. Ceir cyfres gyfatebol ar gyfer mwynau, sef **Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau.** Mae'r ddau fath o Nodiadau sy'n seiliedig ar bwnc penodol wedi'u rhestru yn yr Atodiad i'r erthygl hon.

## Cylchlythyrau

Canllawiau gweithdrefnol sy'n dehongli ac esbonio darn penodol o ddeddfwriaeth yw **Cylchlythyrau.** Mae manylion y cylchlythyrau a oedd mewn grym ym mis Rhagfyr 2015 i'w gweld yma: **Mynegai Canllawiau Polisi Cynllunio Cymru.**

## Llythyrau Egluro Polisi

Os bydd angen egluro polisi neu weithdrefn ar frys, bydd y Gweinidog neu Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **Llythyrau Egluro Polisi.**





# Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

Mae *Deddf Cynllunio (Cymru) 2015* (Deddf 2015) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n paratoi ei **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol cyntaf** a disgwylir i'r fersiwn derfynol gael ei chyhoeddi ym mis Medi 2020.

Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cyflwyno fframwaith defnydd tir am gyfnod o ugain mlynedd, a chaiff ei adolygu bob pum mlynedd o leiaf. Yn wahanol i'w ragflaenydd, sef Cynllun Gofodol Cymru, rhoddir statws cynllun datblygu i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, sy'n golygu y gall fod yn ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau cynllunio a bod yn rhaid i bob Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a Chynllun Datblygu Strategol (CDS) gydymffurfio ag ef.

Nod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yw:

- Nodi lle y mae angen twf a seilwaith o bwysigrwydd cenedlaethol a sut y gall y system gynllunio sicrhau hyn;
- Rhoi cyfeiriad i'r Cynlluniau Datblygu Strategol a'r Cynlluniau Datblygu Lleol;
- Hybu'r broses o benderfynu ar geisiadau o dan y system **Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.**
- Cyd-fynd â Pholisi Cynllunio Cymru, a fydd yn parhau i roi'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir; a
- Ategu strategaethau cenedlaethol ar gyfer yr economi, trafnidiaeth, yr amgylchedd, tai, ynni a diwylliant a sicrhau y gellir rhoi'r rhain ar waith drwy'r system gynllunio.

Mae Deddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad ystyried y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft cyn i'r fersiwn derfynol gael ei chyhoeddi. Bydd gan y Cynulliad 60 diwrnod (heb gynnwys y toriad) i ystyried y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft. Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried unrhyw benderfyniad neu argymhellion a wneir gan y Cynulliad, neu gan unrhyw un o'i bwyllgorau, wrth benderfynu a ddylid diwygio'r Fframwaith drafft.

# Ffynonellau allweddol

## Llywodraeth Cymru

Mae'r **adran gynllunio** ar wefan Llywodraeth Cymru yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- **Hafan polisïau ac arweiniad cynllunio;**
- **Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10) Rhagfyr 2018**
- **Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) a Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (MTAN); a**
- **Mynegai o Ganllawiau Polisi Cynllunio i Gymru.**

## Cymorth Cynllunio Cymru

**Sefydliad elusennol yw Cymorth Cynllunio Cymru** ac mae'n helpu unigolion a chymunedau cymwys i gymryd rhan yn fwy effeithiol yn y system gynllunio. Mae'n cynnig gwasanaethau cynghori, gan gynnwys gwasanaeth llinell gymorth.

## Y Porth Cynllunio

Mae Llywodraeth y DU yn darparu gwybodaeth am reoliadau cynllunio ac adeiladu ar wefan y **Porth Cynllunio**. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y system gynllunio yng Nghymru, er bod rhywfaint o'r cynnwys yn berthnasol i Loegr yn unig.

## Gwasanaeth Ymchwil y Senedd

Mae papurau briffio eraill ym maes cynllunio i'w gweld ar **wefan Gwasanaeth Ymchwil y Senedd,** ac ar ein blog: **Pigion/cynllunio.**





# Atodiad: Rhestr o Nodiadau Cyngor Technegol a Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau

## Nodiadau Cyngor Technegol

- **TAN 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (2015)**
- **TAN 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006)**
- **TAN 3: Parthau Cynllunio Symlach (1996)**
- **TAN 4: Datblygiad Manwerthu a Masnachol (2016)**
- **TAN 5: Cadwraeth a Chynllunio Natur (2009)**
- **TAN 6:Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy**
- **TAN 7: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored (1996)**
- **TAN 8: Ynni Adnewyddadwy**
- **TAN 10: Gorchmynion Cadw Coed (1997)**
- **TAN 11: Sŵn (1997)**
- **TAN 12: Dylunio (2016)**
- **TAN 13: Twristiaeth (1997)**
- **TAN 14: Cynllunio'r Arfordir (1998)**
- **TAN 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (2004)**
- **TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (2009)**
- **TAN 18: Trafnidiaeth (2007)**
- **TAN 19: Telathrebu (TAN 19).**
- **TAN 20: Cynllunio a'r Cymraeg**
- **TAN 21: Gwastraff (2014)**
- **TAN 23: Datblygu Economaidd (2014)**
- **TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (2017)**

## Nodyn Cyngor Technegol Mwynau

- **MTAN 1: Agregiadau (2004)**
- **MTAN 2: Glo(2009)**